Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, 12fed Tachwedd, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.05 pm

Presennol: Cyng Ros Bellamy, Y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leabeater
Cyng Colin Jenkins, Cyng Christopher Parish, Cyng Hugh Towns,
Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Julia Jones, Cyng Dawn Wallace.
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref,
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Richard Wallace.

Cof 184/ Tachwedd/ 08 Anfonebau i'w talu.

WCVA (Gweinyddiaeth Hydref 2008)	£	35.54
WCVA (Cyflogau Hydref 2008)	£	167.40
Orchardweb (gwe-letya)	£	50.00
N.Wall (ysgythriad ar y darian/Cyflwyniadau Tre-gib)	£	13.60
Des Davies (eitemau ar gyfer y goleuadau Nadolig)	£	40.30
Lloyds British (arbrofion llwyth y bracedi ar y wal)	£	822.50
Zurich Insurance (taliad blynyddol)	£	3,475.92
Ar y Gair (cyfieithiadau)	£	46.40
J.W.Thomas (Posteri tân gwyllt)	£	58.75
Zurich Insurance (digwyddiad arbennig – yswiriant tân gwyllt)	£	255.15
Festive Lighting (Goleuadau Nadolig)	£	2,494.82
Des Davies (blwch cymorth cyntaf)	£	13.22
Prospect Construction (llawr blociau yn Neuadd y Sir)	£	1,586.25

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 185 / Tachwedd/ 08 Incwm a Dderbyniwyd Hydref 2008

Rhent Chwarterol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed £ 3,140.75

Cof 186/ Tachwedd / 08 Balansau'r Cyfrifon

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (31.10.08)	£	6,184.11
LTC CYFRIF CYNILO (31.10.08)	£	2,841.29
BOND LLOG UCHEL (llog i'w ychwanegu)	£	50,000.00
(Bydd y Bond yn aeddfedu ar 12.12.08)		

LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.10.08) £ 1,459.32
Gofynnodd y Swyddog Cyllid am ganiatâd i drosglwyddo £2,500 o'r cyfrif cynilo i'r cyfrif cyfredol. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins.
Roedd pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn na ddylid adnewyddu'r Bond Llog Uchel tan fydd yr arian yn cael ei adolygu yn y flwyddyn newydd. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 187/ Tachwedd / 08 Materion Ariannol Eraill

1. I ystyried trefniadau hirdymor er mwyn llogi garej.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y pwyntiau gweithredu hyn. Bydd y Cyng Ros Bellamy yn cwrdd â pherchennog y garej ynghyd â'r Swyddog Technegol i drafod y trefniadau. Bydd y Swyddog Cyllid yn archwilio'r materion yswiriant gyda Zurich Insurance.

2. Rhagolwg Tair Blynedd i'r Gyllideb.
Dywedodd y Swyddog Cyllid fod hyn wedi parhau'r un fath â'r hyn a gafwyd yn y rhagolwg blaenorol. Atgoffodd y Cyng Ieuan Gwyn y cyfarfod y dylai pob cadeirydd pwyllgor ac is-bwyllgor ddarparu amcangyfrifon ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cynllunio neu eu cynnig ar gyfer 2009-10 yn barod ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Tachwedd.

3. Ceisiadau am Gymorth Ariannol
   a) Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd £ 100
   Yr Eisteddfod Genedlaethol Bydd y Cyngor yn ei gefnogi pan gynhelir mewn siroedd cyfagos
   b) Bobath Cymru £ 50
   c) BLAS – Ymwybyddiaeth Strôc Rhydaman a'r Cylch £ 200
   d) Cymdeithas Gefeillio Llandeilo – Rhodd eilflwydd £ 1,000
   e) Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin £ 100
   f) Ambiwlans Awyr Cymru £ 100
   g) Cynnal a chadw mynwent Eglwys Sant Teilo £ 1,000
   h) Eisteddfod Tabernacl £ 200
   Y Clerc i ddiolch i'r trefnwyr am gynnal y digwyddiad sy'n agwedd mor bwysig o ddiwylliant Cymru.

4. Adroddiad ar yr Arddangosfa Tân Gwyllt
Adroddodd y Swyddog Cyllid bod y derbynebion o'r arddangosfa Tân Gwyllt a gynhaliwyd ddydd Gwener, Tachwedd 7fed yn £2,808.91. Diolchodd y Cyng Chris Parish i bawb a gynorthwyodd ar y noson a chynorthwyo gyda'r gwaith glanhau fore dydd Sadwrn. Darperir adroddiad ysgrifenedig erbyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar Dachwedd 26ain.

5. Cyfrif Treuliau'r Maer – Adroddiad yr Is-grŵp
Mae'r Cyng Ros Bellamy wedi darparu dogfen bolisi ddrafft i'r Cynghorwyr i'w thrafod. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylid anfon y polisi draft i'r Cyngor Llawn i'w dderbyn, yn amodol ar unrhyw beth sydd i'w weld i fod yn anghyfreithlon. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Y lwfans ar gyfer y Maer presennol, ar gyfer 2008-9 fydd £3,555.

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

6. Oriau Gwaith y Swyddog Technegol.
Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylid talu Mr Davies am 34 awr sy'n fwy na'i oriau gwaith arferol. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid. Rhoddodd y Swyddog Cyllid ganiatâd i newid y wybodaeth a roddir i'r WCVA i fod yn unol â hynny.

Cof 188 / Tachwedd / 08 Gohebiaeth Parthed Cyllid

Mr Phil Wait, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Arwydd i bortsh blaen Neuadd y Sir. Trafodwyd yr argymhelliad a ddaeth o'r pwyllgor Cynllunio i gymeradwyo'r cynllun a ddarparwyd gan Mr Wait.
Mae'r amcangyfrifon a roddwyd fel a ganlyn :

2 x Arfbais ar baneli parhaol	£ 240
32 x llythrennau bond D. Wedi'u torri'n wastad	£ 583
Costau gosod	£ 200
Rheolaeth Dylunio a Chytundebu	£ 137
Cyfanswm y Gost	£ 1,160

Cynigiodd y Cyng Chris Parish y dylid ei gymeradwyo i'r Cyngor Llawn i'w derbyn. Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 189 / Tachwedd / 08 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau brys yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i chwilio am ddyfynbrisiau am argraffydd cyfrifiadur yn lle'r argraffydd yn y swyddfa sydd wedi torri.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25 pm.